Annwyl cwsmer

**Swyddfa Bost® Cefn-mawr**
**Stryd Crane, Cefn-mawr, Wrecsam, LL14 3LN**

**<u>Penderfyniad yn dilyn Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol</u>**

Rwy’n ysgrifennu i gadarnhau ein bod, ar ôl ystyriaeth ofalus, wedi penderfynu peidio â symud Swyddfa Bost Cefn-mawr i Siop Bapurau Rogers, 24 Y Stryd Fawr, Rhosymedre, Wrecsam, LL14 3YE.

Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus lleol ynghylch yr argymhelliad i symud Swyddfa Bost Cefn-mawr o’r lleoliad presennol i ben ar 8 Hydref 2020. Yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad cawsom nifer o sylwadau gan gwsmeriaid a chynrychiolwyr lleol. Yn bennaf, roedd y sylwadau’n canolbwyntio ar leoliad yr adeilad newydd arfaethedig, y lle y tu mewn i’r siop a’r parcio yng nghyffiniau’r adeilad newydd. Wrth wneud ein penderfyniad, rydym wedi ystyried yr holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys yr effaith y byddai hyn yn ei gael ar fynediad cwsmeriaid i'n gwasanaethau a’r ymatebion a gawsom fel rhan o'r broses ymgynghori.

Felly, bydd y gangen yn dal i gael ei rhedeg o'i lleoliad presennol am y tro. Yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â’r Gymuned, byddai unrhyw leoliad newydd arfaethedig yn destun ymgynghoriad cyhoeddus lleol arall dros gyfnod o chwe wythnos.

Mae’r wybodaeth hon ar gael hefyd yng Nghanolfan Ymgynghori Swyddfa'r Post yn postofficeviews.co.uk.

Mae’r cyfathrebiad hwn yn unol â’n Hegwyddorion Ymgysylltu â’r Gymuned ar gyfer newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post, a gytunwyd â Chyngor ar Bopeth. Os hoffech gael copi o’r Egwyddorion, cysylltwch â ni ar ein gwefan yn: postofficeviews.co.uk.

Diolch ichi am ystyried ein hargymhelliad.

Yr eiddoch yn gywir

*Sarah Cottrell*

**Sarah Cottrell**
**Rheolwraig Newidiadau Rhanbarthol**

postofficeviews.co.uk

comments@postoffice.co.uk

FREEPOST Your Comments

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa’r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ,
Mae Swyddfa’r Post a logo Swyddfa’r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa’r Post Cyfyngedig

PostOffice.co.uk